**Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion**

## Adolygiad Lladdiad Domestig Ceredigion – Cynllun Gweithredu

## Wedi'i ddiweddaru Tachwedd 2023

| | CAM GWEITHREDU | ASIANTAETH | Cynrychiolydd y PDC (Perchennog y Cam Gweithredu) | Pwynt Cyswllt ar gyfer Diweddariadau | Amserlen | Diweddariad Tachwedd 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Bod gweithgor penodol VAWDASV sy'n cael ei sefydlu yng Ngheredigion yn ystod hydref 2021 yn ymchwilio'r cyfleoedd ar gyfer darparu adnoddau ar gyfer gwasanaeth cam-drin domestig penodol ar gyfer pobl hŷn, neu ddarparu adnoddau ar gyfer un, trwy Dewis Choice/Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru | Cyngor Sir Ceredigion | Aelod Cabinet dros bartneriaethau | Elizabeth Upcott | 31/12/21<br>Ar y gweill | Bydd Grŵp Cyflawni VAWDASV lleol yn cwrdd ym mis Ionawr 2024. Bydd gwasanaethau i bobl hŷn ar yr agenda er mwyn adolygu'r trefniadau presennol ac egluro'r angen yn y dyfodol. |
| 2 | Bod Is-grŵp Comisiynu VAWDASV Rhanbarthol, wrth ddatblygu'r Fanyleb Gwasanaeth VAWDASV Rhanbarthol, yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gyflwynir gan fentrau parhaus sy'n ceisio cau'r bwlch yn y ddarpariaeth cymorth ar gyfer pobl hŷn yn y rhanbarth, er enghraifft, grŵp gweithredu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Phrosiect HOPE | Cyngor Sir Ceredigion | Aelod Cabinet dros bartneriaethau | Elizabeth Upcott | Wedi'i gwblhau | Mae'r fanyleb gwasanaeth wedi cael ei datblygu sy'n cynnwys gwasanaethau i bobl hŷn.<br><br>Cam gweithred wedi'i gwblhau |
| 3 | Bod Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu VAWDASV Rhanbarthol a'r Fframwaith Ymgysylltu a Chyfathrebu i oroeswyr VAWDASV yn ystyried rhinweddau sefydlu grŵp ffocws o ddefnyddwyr | Cyngor Sir Ceredigion | Aelod Cabinet dros bartneriaethau | Elizabeth Upcott | Wedi'i gwblhau | Mae Dewis Choice wedi datblygu a chwblhau llawer iawn o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr hŷn. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwasanaeth pobl hŷn i archwilio materion yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a chael mynediad at wasanaethau. | | | | | Mae'r Is-grŵp Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn cynnal ymgyrch wedi'i thargedu ar gyfer pobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin ar gyfer goroeswyr, teuluoedd, y cyhoedd ac ymarferwyr (caiff ei lansio yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu).<br><br>Mae deunyddiau dysgu ALlD Rhanbarthol (gan gynnwys uned benodol i ddioddefwyr hŷn) hefyd ar gael bellach ar wefan y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau |
| 4 | Bod Heddlu Dyfed Powys yn cymryd rhan mewn hyfforddiant penodol ar ddioddefwyr hŷn VAWDASV a'u bod yn rhannu ac yn annog pob swyddog i gael mynediad at ddeunyddiau dysgu ALlD ar-lein sydd ar gael, gan gynnwys dioddefwyr hŷn ac ardaloedd gwledig | Heddlu Dyfed Powys | Ditectif Prif Arolygydd Gareth Roberts | Ditectif Prif Arolygydd Gareth Roberts | Wedi'i gwblhau | <u>Diweddariad Hydref 21</u><br>Ar hyn o bryd mae'r heddlu yn ymgysylltu â gwaith y Comisiynydd Pobl Hŷn, ac mae newydd rannu rhywfaint o'r wybodaeth y mae wedi'i chyhoeddi am gam-drin domestig gyda pharau hŷn. Fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Pobl Agored i Niwed rydym yn bwriadu ymgysylltu â grwpiau anos eu cyrraedd (mae hyn yn cynnwys pobl hŷn). Darperir yr hyfforddiant trwy ddigwyddiadau a chyfathrebu â swyddogion yn ystod 2022. Bydd y grŵp ymgysylltu ehangach yn cael ei gynnal o fewn yr un amserlen. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | <u>Diweddariad Ionawr 22</u><br>Mae dysgu perthnasol wedi'i gynnwys mewn sesiwn hyfforddi ar bobl agored i niwed i'r holl swyddogion rhwng 17 Ionawr i ddiwedd Mawrth 2022. Mae dogfen PowerPoint gyda'r cyflwyniadau i'w gweld isod sy'n dangos bod negeseuon cyson yn cael eu cyfleu i bob swyddog.<br><br>DHR ActionPlan - DPP Update 01-22 -<br><br><u>Diweddariad Tachwedd 23</u><br>Mae'r heddlu wedi rhoi mewnbwn trwy'r diwrnodau hyfforddi ar bobl agored i niwed ar gyfer yr holl swyddogion rheng flaen a'r Adran Ymchwiliadau Troseddol, a goruchwylwyr rheng flaen. Darparodd Dewis Choice fewnbwn i gynulleidfa aml-asiantaeth yn ystod ein cynhadledd ar gam-drin domestig fel rhan o Wythnos Diogelu yn 2023. Roeddem ni hefyd wedi cynnwys mewnbwn ar ddementia a'i effaith ar gam-drin domestig. Mae'r heddlu yn gysylltiedig â gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac yn cefnogi ei ymgyrchoedd.<br><br>Mae strategaeth ymgysylltu ein heddlu yn ceisio chwalu'r rhwystrau i grwpiau lleiafrifol, ac |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | mae hyn yn cynnwys ymgysylltu â phobl hŷn a chartrefi preswyl/llety gwarchod a all gynnwys parau oedrannus.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau |
| 5 | Dylai Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda rannu a hyrwyddo'r deunyddiau hyfforddi thematig rhanbarthol mewn ymateb i laddiadau domestig, gan gynnwys y rhai ar ardaloedd gwledig | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Ymarferydd Arweiniol VAWDASV a Diogelu | Pennaeth Diogelu | Wedi'i gwblhau | Wedi'i ddosbarthu ar draws y Bwrdd Iechyd trwy ebost cyffredinol 08/12/21.<br>Wedi'i anfon at y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol i'w ddosbarthu yn y briff Gofal Sylfaenol nesaf.<br>Wedi'i ymgorffori yng Nghylchlythyr Gwasanaeth Diogelu'r hydref a ddosbarthwyd 10/11/21.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau. |
| 6 | Bod cynllun peilot IRIS I Sir Gaerfyrddin yn cael ei werthuso'n llawn gyda'r nod o'i ymestyn i'w ddefnyddio yng Ngheredigion | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Pennaeth Diogelu | Pennaeth Diogelu | 2025 | Mae'r cynllun peilot ar y gweill ac ym Mlwyddyn 2 bellach. Mae cyllid yn cael ei geisio i ymestyn y cynllun peilot.<br><br>Mae ariannu IRIS yn parhau i fod yn her sylweddol i GIG Cymru, a chynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar ag Uned VAWDASV Llywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch cynaliadwyedd eto. |
| 7 | Dylid darparu adnoddau i feddygfeydd Meddygon Teulu (gan gynnwys Dogfen Llwybr i Gymorth Rhanbarthol VAWDASV i Feddygon Teulu) i gyfeirio dioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol | Pennaeth Diogelu | Wedi'i gwblhau | Wedi'i gwblhau a'i ailanfon 15/07/21.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Dylid nodi un pwynt mynediad mewn Gofal Sylfaenol i gydgysylltu'r broses o ddosbarthu a gweithredu adnoddau | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol | Pennaeth Diogelu | Wedi'i gwblhau | Mae'r holl adnoddau yn cael eu dosbarthu yn y Briff Gofal Sylfaenol gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau |
| 9 | Mae angen ail-bwysleisio gwerth hyfforddiant IRIS a dylid ailgychwyn y cynigion i weithredu cynlluniau peilot IRIS mewn clystyrau Meddygon Teulu ynghyd ag adolygiad o sut i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau ariannu. Os yw cyllid yn parhau i fod yn rhwystr, dylid hysbysu Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref yn unol â hynny | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Pennaeth Diogelu | Pennaeth Diogelu | 31/03/22 | Mae cyllid IRIS yn parhau i fod yn her sylweddol i GIG Cymru, a chynhaliwyd cyfarfod yn ddiweddar gydag Uned VAWDASV Llywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniad ynghylch cynaliadwyedd eto. |
| 10 | Dylai Meddygon Teulu a'r nyrs practis ym meddygfa Meddyg Teulu Betty a John fynychu hyfforddiant diogelu oedolion Lefel 2, a dylai ei holl ymarferwyr gwblhau hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu'. Dylid monitro cydymffurfiaeth o fewn Gofal Sylfaenol a'i adrodd i Weithgor Diogelu Strategol y BIP | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol | Pennaeth Diogelu | Wedi'i gwblhau | Mae Gofyn a Gweithredu yn rhan o hyfforddiant gorfodol y feddygfa; mae ganddynt fynediad i'r Practice Index HUB, e-ddysgu GIG Cymru a Hyb Hyfforddi TeamNet.<br>Mae holl staff y feddygfa wedi mynychu Hyfforddiant Diogelu Oedolion Lefel 2, ac mae'r holl staff clinigol wedi mynychu Hyfforddiant Diogelu Oedolion Lefel 3.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau. |
| 11 | Dylid diweddaru polisi diogelu meddygfa'r Meddyg Teulu i ddisgrifio'r cyflwyniadau y dylid eu hystyried fel arwyddion posibl o gam-drin domestig, ac sydd felly'n cynnig cyfleoedd i'r Meddyg Teulu wneud ymholiadau wedi'u hysgogi | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol | Pennaeth Diogelu | Wedi'i gwblhau | Cam gweithredu wedi'i gwblhau |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Dylid rhoi prosesau ar waith ym meddygfa'r Meddyg Teulu i sicrhau bod unrhyw negeseuon a dderbynnir am gam-drin domestig yn cael eu trosglwyddo ar unwaith i'r meddyg ar alwad, a bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi ar gofnodion cleifion. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol | Pennaeth Diogelu | Wedi'i gwblhau | Mae polisi'r feddygfa wedi cael ei ddiweddaru i sicrhau bod unrhyw bryderon sydd gan unrhyw glinigwyr/y rhai nad ydynt yn glinigwyr yn cael eu trafod gyda'r arweinydd diogelu, a bod hynny'n cael ei gofnodi o fewn 24 awr i'r amheuaeth o ddigwyddiad.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau |
| 13 | Dylai negeseuon tebyg gael eu cyfleu ar draws pob meddygfa yn y sir er mwyn sicrhau cysondeb | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol | Pennaeth Diogelu | Wedi'i gwblhau | Negeseuon yn cael eu rhannu â phob meddygfa Meddyg Teulu trwy sesiynau briffio Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau. |
| 14 | Dylai'r BIP dynnu sylw at y ffaith bod y matricsau diogelu yn Offeryn Hunanasesu Llywodraethu Clinigol Cymru Gyfan wedi dyddio a bod angen eu hadolygu | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol – Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol | Pennaeth Diogelu | Wedi'i gwblhau | Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud.<br><br>Cam gweithredu wedi'i gwblhau |